



Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru.

Beth sy'n Digwydd?

Mae gan bron i chwarter y dysgwyr yng Nghymru ryw fath o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Mae'r canlyniadau ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig yn wael o gymharu â gweddill y disgyblion yng Nghymru.

Mae'r system bresennol yn seiliedig ar fodel sydd dros ddeg ar hugain oed ac nad yw bellach yn addas at y diben. Ym mis Rhagfyr 2017 pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfraith newydd, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynys (Cymru). Bydd y system newydd yn dod i rym o fis Medi 2020. O dan y system newydd ni fyddwn yn ei galw'n Anghenion Addysgol Arbennig mwyach - yn lle hynny, byddwn yn sôn am Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Bydd gan bob dysgwr ag ADY o'i enedigaeth hyd at 25 oed (yn hytrach na 19) Gynlluniau Datblygu Unigol. Bydd y cynlluniau hyn yn nodi'r gefnogaeth y bydd gan ddysgwyr hawl gyfreithiol i'w derbyn. Bydd angen gwasanaethau hefyd, lle bo angen ac yn bosibl, i ddarparu'r gefnogaeth hon yn Gymraeg. Bydd yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â chefnogi'r dysgwr - p'un ai ym maes addysg, gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau iechyd - yn gweithio mewn partneriaeth.

Bydd y broses yn llawer symlach a bydd dysgwyr, eu rhieni a'u gofawyr yn cymryd rhan wrth wneud eu cynlluniau. Bydd hyn yn atal anghytundebau rhag codi ond lle gwnânt, cânt eu datrys yn gyflym. Bydd gan bob dysgwr ag ADY yr un hawliau i apelio os bydd angen iddynt herio penderfyniadau a wneir. Er mwyn sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn deall y broses gyfreithiol newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cod ar gyfer y system ADY, sy'n rhaid ei dilyn.

Yn ogystal â newid y gyfraith, bydd buddsoddiad yn y gweithlu addysg i sicrhau bod gan bawb sy'n gweithio gyda dysgwyr ag ADY y sgiliau cywir. Mae ystod eang o wasanaethau'n cael eu defnyddio i baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r system newydd ac i ddatblygu perthnasoedd gwaith agosach.

Nid yw'r system newydd o fudd i ddysgwyr ag ADY yn unig. Bydd yn helpu i greu system addysg deg a chynhwysol, lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu cefnogi i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyfranogi, a chyflawni eu potensial llawn.

Am fwy o wybodaeth ewch i: www.gov.wales/ALN